CANLLAWIAU

CRYNODEB O BERFFORMIAD A CHYFLWYNO RHYBUDDION GWELLA

1 PWRPAS

Pwrpas y cyhoeddiad hwn yw:

i. gosod fframwaith i awdurdodau priffyrdd ac ymgymerwyr statudol ar gyfer dadansoddi canlyniadau perfformiad a gweithredu arnynt yn seiliedig ar archwiliadau o samplau a wnaed ar hap; a

ii. galluogi adroddiadau am berfformiad i gael eu cynhyrchu a rhoi sicrwydd am uniondeb y canlyniadau a gafwyd; a

iii. ei gwneud yn hwylus i hysbysiadau am welliannau fynd ger bron HAUC Cymru.

3 DULL GWEITHREDU

i. Lle bo mwy na 10% o'r sampl o'r archwiliadau ar yr ymgymerwr yn datgelu diffygion dros unrhyw chwarter a gytunwyd caiff awdurdod y strydoedd gyflwyno Rhybudd Gwella (Atodiad 1), neu anfon llythyr ffurfiol yn achos sampl fechan, yn datgan bod yr Awdurdod yn anfodlon ar berfformiad yr ymgymerwr.

ii. Anfonir y Rhybudd Gwella at y sawl a enwebwyd gan PAPC Cymru, ac fe'i anfonir o fewn mis i'r chwarter dan sylw.

iii. O fewn mis o roi Rhybudd Gwella bydd yr ymgymerwr yn rhoi gwybod i awdurdod y strydoedd am yr hyn y bwriada ei wneud am y sefyllfa.

iv. Ymdrinnir ag unrhyw anghydfod a fydd yn deillio o'r Rhybudd yn unol â Chyngor PAPC ynghylch cymrodeddu a chymodi.

v. Mae'r cyfnod ar gyfer anfon llythyrau ffurfiol ac ymateb iddynt yr un fath ag ar gyfer Rhybuddion Gwella.

vi. Dylai awdurdod y strydoedd gyhoeddi adroddiadau perfformiad chwarterol i'r ymgymerwr, ac argymhellir y dylent lunio adroddiad cryno blynyddol i'r pwyllgor priodol o'r cyngor.

vii. Anfonir manylion am y Rhybuddion Gwella a dderbyniwyd at Ysgrifennydd PAPC Cymru er gwybodaeth a'u pasio ymlaen.